



General
Osteopathic
Council

Adroddiad Blynyddol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol i Gomisiynydd y Gymraeg

Rhagfyr 2023 – Mawrth 2024

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ynglŷn â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol.....	4
Ein gweithgareddau cydymffurfio	5
Gwybodaeth bellach am ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.....	6
Sut i gysylltu â ni yn Gymraeg.....	6

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn esbonio sut mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol wedi ceisio cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 rhwng 6 Rhagfyr 2023 (y dyddiad y daeth ein hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg i rym) a 31 Mawrth 2024.

Rydym wedi ymrwymo i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gydnabod arwyddocâd a hanes yr iaith a gwneud ein gorau lle bo modd i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws ein gwasanaethau.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau rydym wedi'u cynnal i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg nawr ac yn y dyfodol. Ein nod oedd cymryd agwedd gymesur at gydymffurfio â'r safonau, gan ystyried maint a chyrhaeddiad ein sefydliad yn ogystal â nifer yr osteopathiaid a myfyrwyr sy'n byw, yn astudio ac yn ymarfer yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae'r gweithgareddau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn dilyn o'n gwaith blaenorol i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg. Cafodd hyn ei ddisodli gan yr hysbysiad cydymffurfio a gawsom gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 6 Mehefin 2023 a nododd 67 o safonau. Helpodd hyn ni i ddeall sut y gallem wella ein darpariaeth gwasanaethau Cymraeg, asesu effaith ein penderfyniadau ar y rhai sydd am ddefnyddio'r Gymraeg a bod yn fwy clir ac yn fwy cyson yn ein cyfathrebiadau am y gwasanaethau a ddarparwn yn Gymraeg.

Rydym yn parhau i annog adborth gan siaradwyr Cymraeg ar y gwasanaethau a'r wybodaeth a ddarparwn yn Gymraeg. Bydd unrhyw adborth a gawn yn cael ei ddefnyddio i lywio'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r safonau yn y dyfodol. Os ydych chi'n siaradwr Cymraeg ac yr hoffech gysylltu â ni yn Gymraeg, mae croeso i chi anfon e-bost atom yn: info@osteopathy.org.uk

Ynglŷn â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr ar gyfer osteopathi yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rhaid i osteopathiaid gofrestru gyda'r Cyngor i ymarfer osteopathi yn gyfreithiol yn y DU.

Ein nod cyffredinol yw amddiffyn y cyhoedd, cynnal hyder y cyhoedd mewn osteopathi a hyrwyddo safonau proffesiynol priodol ac ymddygiad ar gyfer osteopathiaid.

Mae ein cyfrifoldebau yn cynnwys:

- cadw cofrestr o'r holl osteopathiaid a ganiateir i ymarfer
- gweithio gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn osteopathig i hyrwyddo diogelwch cleifion trwy gofrestru gweithwyr proffesiynol cymwys a phennu, cynnal a datblygu safonau ymarfer ac ymddygiad osteopathig
- helpu cleifion sydd â phryderon am osteopath, a thynnu unrhyw osteopathiaid sy'n anaddas i ymarfer oddi ar y Gofrestr
- sicrhau ansawdd addysg osteopathig
- pennu'r gofynion ar gyfer osteopathiaid mewn perthynas â'u datblygiad proffesiynol parhaus

Ar 31 Mawrth 2024, roedd 163 o osteopathiaid yn byw a/neu'n ymarfer yng Nghymru, ac roedd tua 160 o fyfyrwyr yn astudio a/neu'n byw yng Nghymru, gan gynnwys 43 o fyfyrwyr yn eu blynyddoedd olaf neu olaf ond un yn astudio. Prifysgol Abertawe yw'r unig ddarparwr addysg osteopathig yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn sefydliad bach gyda llai na 30 aelod o staff ac mae ein swyddfa wedi'i lleoli yn Llundain, Lloegr. Cawn ein llywodraethu gan ein Cyngor sydd â gofyniad statudol i gynnwys o leiaf un aelod o Gymru (person sydd wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a allai fod yn lleyg neu'n osteopathig) i'n helpu i ystyried a chefnogi anghenion osteopathiaid, cleifion ac aelodau Cymreig o'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio strategol.

Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg. Mewn diwrnod staff ledled y sefydliad ym mis Ionawr 2024 eglurwyd i'n cydweithwyr y byddai'r Cyngor yn trefnu ac yn ariannu gwersi Cymraeg i unrhyw aelodau staff a fyddai'n dymuno dysgu Cymraeg.

Yn ystod yr un digwyddiad, anogwyd pob aelod o staff i ymgysgu â'r safonau ac i ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg yn eu holl waith. Roedd yr adborth o'r sesiwn hon yn gadarnhaol, gydag aelodau staff yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau ynghylch sut y gellid cymhwyso'r safonau trwy eu gwaith a rhyngweithio ag osteopathiaid, cleifion a'r cyhoedd.

Ein gweithgareddau cydymffurfio

Wrth baratoi ar gyfer ein hysbysiad cydymffurfio a ddaeth i rym ar 6 Rhagfyr, gwnaethom sawl newid ar draws ein gwasanaethau a'n swyddogaethau craidd i wella ein darpariaeth Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i brosesau yn ein swyddogaethau cofrestru, rheoleiddio, safonau proffesiynol, cyfathrebu a TG i sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno ymgysylltu â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol, lle bo hynny'n bosibl.

Er mwyn diwallu anghenion siaradwyr Cymraeg a bodloni gofynion ein hysbysiad cydymffurfio, aethom ati i drefnu cyfieithu ar gyfer ein dogfennau a'n ffurflenni a fyddai'n cefnogi, er enghraifft:

- llwybr osteopath sydd am ddarparu ei ddatganiad fel rhan o ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn y Gymraeg
- tyst yn mynychu gwrandawriad addasrwydd i ymarfer yn Gymraeg
- myfyriwr yn gwneud cais i ymuno â'n Cofrestr yn Gymraeg
- aelod o'r cyhoedd sy'n defnyddio adran Gymraeg ein gwefan i ddysgu mwy am y Cyngor a'r hyn a wnawn, ac efallai sydd am godi pryder am osteopath.

Cyfieithwyd tua 140,000 o eiriau ar draws 60 o ddogfennau a ffurflenni yn ôl amcangyfrifon. Hefyd, ehangwyd adran Gymraeg ein gwefan i ddarparu rhagor o wybodaeth am ein sefydliad a'n gwaith yn Gymraeg a diwygiwyd ein system ffôn awtomataidd i gynnwys neges yn Gymraeg i'r rhai a allai fod am siarad ag aelod o'n tîm yn Gymraeg.

Yn ogystal â dogfennau a ffurflenni, gwnaethom hefyd sicrhau bod ein holl adnoddau sy'n canolbwyntio ar gleifion ar gael yn Gymraeg o'n gwefan. Cyhoeddwyd fersiwn Gymraeg o'n [hanimeiddiad Ymweld ag Osteopath](#) ar gyfer cleifion osteopathig er mwyn caniatáu i osteopathiaid yng Nghymru gyfathrebu'n effeithiol â'u cleifion cyn apwyntiad.

Ers i'r hysbysiad cydymffurfio ddod i rym, rydym wedi lansio ein e-fwletin newydd i fyfyrwyr yn Gymraeg a Saesneg i fyfyrwyr yng Nghymru (mae myfyrwyr yn Lloegr yn derbyn yr e-fwletin yn Saesneg). Rydym hefyd wedi hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg ar draws ein sianeli cyfathrebu, gan gynnwys ein e-fwletin misol, cyflwyniadau myfyrwyr a'r cyfryngau cymdeithasol.

Ym mis Rhagfyr 2023 cyhoeddwyd [ein hadroddiad blynyddol Addasrwydd i Ymarfer yn Gymraeg](#) am y tro cyntaf. Ar 31 Mawrth 2024, mae cynlluniau hefyd ar droed i gyhoeddi [ein Strategaeth newydd tuag at 2030 yn Gymraeg](#).

Rydym hefyd wedi cyhoeddi sawl ymgynghoriad, gan gynnwys ymgynghoriad ar ein Canllawiau ar Ymddygiad Proffesiynol ac Addasrwydd i Ymarfer Myfyrwyr. Fel rhan o'n deunydd cyfathrebu ar gyfer pob ymgynghoriad, rydym yn gwahodd ymatebion yn Gymraeg. Ar ôl eu cwblhau, bydd y canllawiau hefyd yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ar ein gwefan.

Er mwyn sicrhau ein bod yn mynd o'i chwmpas hi'n addas o safbwynt ein darpariaeth ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru, ymgynghorwyd â darparwr addysg a siaradwr Cymraeg o Brifysgol Abertawe. Helpodd hyn ni i ddeall beth fyddai

disgwyliadau eu myfyrwyr o ran y wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei darparu iddynt. Rydym yn bwriadu parhau i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg lle bynnag y bo'n berthnasol ac yn bosibl.

Rydym hefyd wedi adolygu ein ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ddeall sut y gallem sicrhau bod y ffordd rydym yn asesu ac yn ystyried effaith ein penderfyniadau polisi ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan annatod o'n prosesau llywodraethu. Fel rhan o hyn, diweddarwyd ein templedi Cyngor a Phwyllgor papur i annog cydweithwyr ac aelodau anweithredol i fynd ati i ystyried Safonau'r Gymraeg yn eu holl waith a'u penderfyniadau.

Gwybodaeth bellach am ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

Nifer y cwynion a ddaeth i law'r Cyngor rhwng Rhagfyr 2023 a Mawrth 2024 sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau:	Dim
Nifer y gweithwyr oedd â sgiliau iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2024:	Dim
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebodd y Cyngor (ac eithrio swyddi llywodraethu/anweithredol) lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol:	Dim
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebodd y Cyngor (ac eithrio swyddi llywodraethu/anweithredol) lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol:	Dim
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebodd y Cyngor (ac eithrio swyddi llywodraethu/anweithredol) lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol lle'r oedd angen dysgu sgiliau Cymraeg:	Dim
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebodd y Cyngor (ac eithrio swyddi llywodraethu/anweithredol) lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol:	Dim
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebodd y Cyngor (ac eithrio swyddi llywodraethu/anweithredol) lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol:	2

Sut i gysylltu â ni yn Gymraeg

Gellir anfon ymholiadau yn Gymraeg at y Cyngor drwy e-bost neu drwy'r post a byddant yn derbyn ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg heb oedi ychwanegol. Bydd ymholiadau a anfonir atom trwy unrhyw un o'n sianeli cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter/X neu LinkedIn) hefyd yn derbyn ymateb yn Gymraeg. Rydym fel arfer yn ceisio ymateb i e-byst a chyswllt trwy'r cyfryngau cymdeithasol o fewn 5 diwrnod gwaith.

Gan nad oes gennym aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd, ni allwn ateb galwadau ffôn yn Gymraeg.

Os hoffech gysylltu â ni am ein gwasanaethau Cymraeg neu gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, gallwch wneud hynny drwy e-bostio info@osteopathy.org.uk